

Papur y Bwrdd i'w Nodi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 5 Ebrill 2019

Yn bresennol:

Shan Morgan
Andrew Goodall
Tracey Burke
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Peter Kennedy
Jeff Godfrey
Gillian Baranski
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Ann Keane
Ellen Donovan
Francesca Hill
Helena Bird

Yn mynychu:

Piers Bisson
Simon Brindle
Jo Glenn

Ysgrifenyddiaeth:
Charmain Watts

Ymddiheuriadau:

Des Clifford
Andrew Slade

1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod a chyflwyno Aelod y Bwrdd Cysgodol, Francesca Hill. Mae Francesca yn un o dri aelod o'r Bwrdd Cysgodol a fydd yn mynd i'r cyfarfodydd yn eu tro.

2. Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE)

2.1 Ymunodd Piers Bisson a Simon Brindle â'r cyfarfod.

2.2 Dywedodd Piers fod Prif Weinidog y DU wedi ysgrifennu at yr Undeb Ewropeaidd i ofyn am oedi pellach i Brexit tan 30 Mehefin. Mae wedi cynnig y dylai'r DU lwyddo i ymadael cyn Etholiadau Senedd Ewrop ar 23 Mai, os bydd

Aelodau Seneddol y DU'n cymeradwyo cytundeb mewn pryd. Dywedodd ymhellach ei bod wedi cadarnhau y byddai'r DU yn paratoi i gynnig ymgeiswyr yn yr etholiadau hynny rhag ofn na ddeuir i gytundeb.

2.3 Cynhelir Cyngor Ewropeaidd Arbennig ar 10 Ebrill lle y bydd 27 gwlad yr UE yn trafod ac yn cytuno ar estyniad.

2.4 Dywedodd Piers fod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Pwyllgor Cabinet newydd ar Barodrydd ar gyfer Ymadael â'r UE a grŵp swyddogion cysylltiedig y caiff y Prif Weinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu trefn eu gwahoddi iddo yn rheolaidd.

2.5 Amlinellodd Simon y cynnydd gyda dwy elfen allweddol o waith.

- (1) Deddfwriaeth
- (2) Camau gweithredu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

2.6 Cynghori bod y ddwy elfen hyn ar y gwaith yn cael eu monitro'n ofalus a bod Is-bwyllgor yr UE a Phwyllgor Gweithredol Brexit yn craffu arnynt.

2.7 Trafododd y Bwrdd bwysau o ran adnoddau a darparu busnes yn ôl yr arfer ac ymrwymadau eraill ochr yn ochr â Brexit. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cyfarfod wedi'i drefnu â Phrif Weinidog Cymru ar ddiwedd y mis i drafod hyn.

3. Adroddiad Cyllid

3.1 Cyflwynodd Gawain Evans yr Adroddiad Cyllid sy'n ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2018 i 28 Chwefror 2019 (mis 11). Mae'n cynnwys ffigurau alldro a ragwelir yn erbyn cyllideb 2018-19, sef, ar gyfer y cyfnod hwn, ac am y dyfodol, Ail Gyllideb Atodol 2018-19 ac fe'i gosodwyd gerbron y Cynulliad ar 5 Chwefror 2019.

3.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth yn bennaf ar drosolwg o'r sefyllfa ariannol, y sefyllfa o ran y Prif Grwpiau Gwariant (MEG) (Cyfalaf a Refeniw) a'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL). Trafododd y Bwrdd hefyd y gwariant diwedd blwyddyn a phwysigrwydd proffilio.

3.3 Dywedodd Gawain y byddai MFT yn ysgrifennu at gydweithwyr yn y Cabinet ynghylch nodi tanwariant yn gynharach yn y flwyddyn i hwyluso trafodaeth am flaenoriaethau. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n ysgrifennu at AAOs yn pwysleisio'r angen am dryloywder gwell a chynharach ynghylch rhagolygon. Rhoes Gawain y newyddion diweddaraf am y cynnydd yn y cyllid ar gyfer pensiynau, cam gweithredu o gyfarfod diwethaf y Bwrdd.

3.4 Trafododd y Bwrdd cynllunio'r gweithlu a dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod gwaith wedi dechrau i hwyluso rhai prosesau o fewn y sefydliad gyda gwahanol opsiynau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ddydd Iau.

CAM GWEITHREDU 1: Papur ar gynllunio'r gweithlu i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

4. Diweddariad am Amrywiaeth a Chynhwysiant

4.1 Ymunodd Jo Glenn â Gillian Baranski i roi cyflwyniad am amrywiaeth a chynhwysiant. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y meysydd allweddol canlynol:

4.2 Y targedau amrywiaeth wrth ddod yn sefydliad sy'n esiampl i eraill,

4.3 Ystadegau'r gweithlu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Gradd 7, Gradd 6 ac Uwch Weision Sifil,

4.4 Cryfhau'r llif Gradd 6 a 7 drwy gyfrwng:

- Rhaglenni hyfforddiant dynodedig (rhaglen y Llwybr Gweithredu Cadarnhaol a Chynllun Arweinwyr y Dyfodol.)
- Nodi staff BAME a staff anabl i gynnig cymorth a datblygiad.
- Pecyn hyfforddiant pwrpasol ar gyfer menywod sy'n arweinwyr.
- Coetsio a mentora (gan gynnwys mentora o chwith).
- Rheoli talent gan gynnwys nawdd.
- Cynnal grwpiau ffocws ar gyfer menywod Gradd 7, 6 a'r Uwch Wasanaeth Sifil.

4.5 Crynhôdd Gillian ymhellach y llwyddiannau ers 2018 a'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan y Rhwydweithiau.

4.6 Cafwyd trafodaeth am gynnydd ar y targedau gyda nifer o aelodau'r Bwrdd yn dweud na ddylent yrru ein gwaith cyflawni. Roedd yn bwysig gwneud datganiad cryf am ein huchelgeisiau a'n gwerthoedd fel rhan o fod yn gyflogydd cynhwysol.

CAM GWEITHREDU 2: Cylchedeg blog diweddaraf Nastassja Wiseman.

4.7 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Gillian a'i thîm am eu hymdrech a'u hymrwymiad parhaus wrth gyflawni'r gwaith hwn.

5. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Eitemau'r Is-bwyllgor

5.1 Dywedodd Jeff Farrar fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi gofyn iddo yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar y Bwrdd arwain tasg grŵp gorchwyl a gorffen i'w chynghori ar ddull addas o baratoi cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol gwell a systematig ar gyfer Llywodraeth Cymru. Esboniodd y byddai'n manteisio ar y deunydd presennol gan sicrhau ei fod yn casglu'r holl ddeunydd perthnasol a ddelir ar draws yr holl Adrannau. Yn dilyn yr ymarfer hwn, bydd yn ystyried pa fesurau ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol inni eu mabwysiadu i'n galluogi i fonitro cynnydd a chyflawniad yn fwy effeithiol. Rhoddir diweddariad pellach i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARaC) yn dilyn yr ymarfer hwn.

CAM GWEITHREDU 3: Diweddariad i'w ddarparu i ARaC a'r Bwrdd yn y dyfodol ar y gwaith ar ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI).

5.2 Rhoes Ann Keane adborth o'r cyfarfod ARaC diwethaf a dweud bod y Pwyllgor wedi cytuno i rannu gwybodaeth yn fwy systematig (cofnodion a dogfennau allweddol i'w rhannu â NEDs Bwrdd Llywodraeth Cymru; y Gofrestr Risg Corfforaethol i'w rhannu â Chadeiryddion ARaC Grŵp). Cyflwynodd Helen Morris eitem ar Wella Rheoli Risg ac fe gyflwynodd Claire Collett adroddiad ar ganfyddiadau adroddiadau Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Cafwyd adroddiadau hefyd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Dywedodd Ann ymhellach fod trefniadau yn eu lle i Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru gyfarfod â Chyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth yr Alban i rannu dysgu, trafod blaenoriaethau a heriau a chymharu modelau llywodraethiant.

5.3 Rhoes Jeff Farrar drosolwg ar y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth - roedd hyn yn cynnwys trafodaethau am swyddi Cyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Dywedodd fod cytundeb wedi'i wneud o ran dwy swydd Dirprwy Gyfarwyddwr.

5.4 Rhoes David Richards y newyddion diweddaraf am y Rhaglen Ddeddfwriaeth a dweud bod rhywfaint o oedi oherwydd materion adnoddau. Dywedodd hefyd fod Bil y Gymraeg wedi cael ei derfynu a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu Bil arall yn ei le.

6. Unrhyw fater arall

Dim

7. Briffio Diogelwch Swyddfa'r Cabinet (Sesiwn Hyfforddiant)

Camau gweithredu'n codi yng nghyfarfod y Bwrdd

CAM GWEITHREDU	SWYDDOG ARWEINIOL	Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF
<u>CAM GWEITHREDU 1:</u> Papur ar gynllunio'r gweithlu i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	Natalie Pearson	Bwrdd mis Gorfennaf
<u>CAM GWEITHREDU 2:</u> Cylchredeg yr adborth/astudiaethau achos sy'n dangos llwyddiant y Rhwydweithiau.	Gillian Baranski/Yr Ysgrifenyddiaeth	Wedi'i gwblhau
<u>CAM GWEITHREDU 3:</u> Diweddariad i'w darparu i ARaC a'r Bwrdd yn y dyfodol ar y gwaith ar ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI).	Jeff Farrar	Wedi'i gwblhau